| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **7 Mawrth 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Proses Ymgynghori - Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (“PSD”)ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd** |
| **PWRPAS** | **Amcan yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar broses ymgynghori ac amserlen penderfynu.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Menna Trenholme – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol -** |

## 1. Argymhelliad ar gyfer penderfyniad

**1.1 Fod y Cyngor yn cymeradwyo yr amserlen a’r broses arfaethedig ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad ar newid i gyfundrefn Pleidlais Sengl Drosglwyddiadau ar gyfer etholiadau i Gyngor Gwynedd o 2027 ymlaen.**

**1.2 Yn dirprwyo paratoi a chynnal yr ymgynghoriad i’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a’r Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Corfforaethol a Chyfreithiol a Pennaeth Gefnogaeth Corfforaethol (*Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd*).**

**1.3 Fod y ddogfen ymgynghori yn cael ei pharatoi mewn ymgynghoriad gyda arweinyddion grwpiau gwleidyddol y Cyngor.**

## 2.Cefndir

2.1 Mae Adran 5 Deddf Llywodraeth leol ac Etholiadau( Cymru) 2021 yn caniatáu i unrhyw Brif Gyngor ddewis rhwng dwy sustem bleidleisio Llywodraeth Leol ar gyfer Prif Gynghorau :

- Sustem mwyafrif syml (“cyntaf heibio’r postyn” )
- System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Mae’r dewis yma ar gael i bob un o 22 Prif Gynghorau Cymru yn unigol. Yn ei gyfarfod ar y 7fed o Ragfyr 2023 penderfynodd y y byddai y Cyngor yn :

**“.................... yn cychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.”**

Amcan yr adroddiad yma yw ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i broses ymgynghori ac amserlen penderfynu

[Eitem 11 - Dewis ar Fabwysiadu System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer Etholiadau Cyngor Gwyn.pdf (llyw.cymru)]

**3. Be ydi'r broses o newid trefn?**

3.1 Mae angen dilyn camau penodol os am benderfynu ar drefn amgen..

Cyn gwneud penderfyniad i newid y drefn a'i pheidio rhaid ymgynghori ynglŷn a'r bwriad gyda;

- Pob etholwr llywodraeth leol yn yr ardal
- Pob cyngor tref/cymuned
- Unrhyw bersonau eraill mae'n ystyried y dylid yn briodol ymgynghori a hwy

Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn ymgynghori gyda yr etholwyr llywodraeth leol yn yr ardal yn ogystal a phob cyngor tref a chymuned. Ystyrir fod hyn yn fater sydd yn priodoli ei hyn i ymgynghori a'r grwpiau hyn gan eu bod yn cynrychioli budd ddeiliaid pennaf yn ein prosesau etholiadol lleol. Bydd hyn yn cynrychioli grŵp eang iawn o i ddarparu adwaith i'r bwriad . Nid oes "personau" neu grwpiau o "bersonau" eraill sydd yn amlygu eu hunain ar gyfer ymgynghori yn benodol ar y mater yma.

2.2 Golygai hyn y byddwn yn llythyru â phob etholwr perthnasol i geisio eu barn. Bwriedir paratoi dogfen ymgynghori fydd yn crynhoi y dewis a nodweddion y sustemau yn wrthrychol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan wybodaeth fwy manwl a chysylltiadau i ddeunyddiau Comisiwn Etholiadol ar wefan y Cyngor. Argymhellir fod y gwaith o gynnal y broses yn cael ei ddirprwyo yn unol â'r argymhelliad. Fodd bynnag argymhellir hefyd fod cynnwys y ddogfen ymgynghori yn destun ymgynghoriad penodol gyda arweinyddion y grwpiau gwleidyddol unigol.

2.3 Wedi ymgynghori ar y bwriad rhaid galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn yn benodol ar gyfer y penderfyniad yma yn unig. Rhaid rhoi 21 diwrnod o rybudd rhag-blaen o'r cyfarfod.

2.4 Er mwyn mabwysiadu cynnig i newid y gyfundrefn rhaid i nifer yr aelodau sydd o blaid fod o leiaf dwy ran o dair o nifer y seddi ar y Cyngor sef 46/69. Noder, nid dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod, ond dwy ran o dair o holl seddi Aelodau ar y Cyngor.

2.5 Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer y broses gan ddal sylw at gyfnodau etholiadol er sicrhau penderfyniad cyn 15 Tachwedd 2024, sef y diwrnod olaf y gellir dod i benderfyniad os am newid y drefn cyn etholiad 2027.

| | **Gweithred** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| 1. | Cychwyn ar yr ymgynghoriad | Wythnos cychwyn 6 Mai 2024 |
| 2. | Dyddiad Cau ymgynghoriad | 21 Mehefin 2024 |
| 3. | Galw cyfarfod arbennig Cyngor Llawn – 21 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod | 28 Awst 2024 fan hwyraf |
| 4. | Cyngor Llawn i benderfynu ar y sustem bleidleisio | 19 Medi 2024 |
| 5. | Hysbysu y Gweinidogion Cymreig a Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad os penderfynir newid | |

2.6 Petai y Cyngor ym mabwysiadau trefn Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yna byddai hyn yn arwain at adolygiad ffiniau lleol gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er symud i gyfundrefn seddi aml aelod ar draws y Sir. Bydd hyn yn seiliedig ar wardiau fydd yn amrywio o rhwng 3 a 6 aelod. ,

2.7 Mater i'r Comisiwn, ac nid y Cyngor, fydd y broses adolygu ffiniau yma gan ddilyn y drefn statudol sydd yn berthnasol i adolygiad trefniadau etholiadol Prif Gynghorau. Bydd cyfle i'r Cyngor ddatgan barn fel ymgynghorai statudol allweddol ar sawl cam hyd y daith o baratoi adroddiad terfynol y Comisiwn i'r Gweinidog. Yn anorfod ni fydd modd damcaniaethu beth fydd canlyniad y broses adolygu ffiniau hyd fydd y broses yma yn dechrau amlygu opsiynau posib.

## 4. Asesiad Effaith

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn penderfynu i symud ymlaen ag unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol lleol, byddai angen ymarfer sgrinio effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth llawn. Byddai hyn hefyd yn cael ei ymgorffori yn y broses ymgynghori .

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Bydd y Gwaith yn cael ei gynnal gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio

SWYDDOGION STATUDOL

**Prif Swyddog Cyllid**

"Mae'n anorfod bydd costau ynghlwm i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ond mae'r penderfyniad a geisir yn gyson â phenderfyniad blaenorol y Cyngor.

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad